

Cefnogaeth wrth ymateb i achosion o gam-drin domestig

Canllaw i etholwyr

Gorffennaf 2026



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl.

Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
[**ymchwil.senedd.cymru**](http://ymchwil.senedd.cymru)

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygrych, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

X: [**@SeneddYmchwil**](https://twitter.com/SeneddYmchwil)
Ymchwil y Senedd: [**ymchwil.senedd.cymru**](http://ymchwil.senedd.cymru)
Tanysgrifiwch: [**Cylchlythyr**](http://cylchlythyr.senedd.cymru)

© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2026

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cefnogaeth wrth ymateb i achosion o gam-drin domestig

Canllaw i etholwyr

Gorffennaf 2026

Mae Ymchwil y Senedd yn darparu cymorth ymchwil diduedd i Aelodau o'r Senedd. Ni allwn ohebu yn uniongyrchol ag unigolion neu sefydliadau eraill, na rhoi cyngor na sylwadau ar achosion unigol.

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y canllaw hwn at ddibenion gwybodaeth gyffredinol yn unig i gefnogi gwaith Aelodau o'r Senedd wrth iddynt gynorthwyo eu hetholwyr. Ni fwriedir iddi gymryd lle deddfwriaeth, canllawiau, polisi na chyngor proffesiynol.





Nod y daflen ffeithiau hon yw cynorthwyo Aelodau o'r Senedd a'u staff i ymateb i bryderon etholwyr ynghylch cam-drin domestig a chyfeirio pobl at ffynonellau perthnasol o gymorth yng Nghymru.

Caiff y wybodaeth hon ei darparu i gefnogi gwaith achos ac atgyfeirio yn yr etholaeth. Nid y bwriad yw dibynnu arni fel cyngor cyfreithiol na chyngor proffesiynol.

Os yw rhywun mewn perygl uniongyrchol

Os yw etholwr (neu rywun arall) mewn perygl uniongyrchol, anogwch nhw i ffonio **999**. Os na allant siarad, gallant ddefnyddio gwasanaeth 'Ateb Tawel' yr heddlu drwy bwyso **55** pan ofynnir iddynt wneud hynny.

Cynnwys

1. Adnoddau ar gyfer Aelodau o'r Senedd a'u staff cymorth...	9
2. Atgyfeirio etholwyr a'u cefnogi	10
Llinellau cymorth cenedlaethol	10
Gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol	10
Tai, budd-daliadau a materion cyfreithiol	11
Plant a diogelu	12

1. Adnoddau ar gyfer Aelodau o'r Senedd a'u staff cymorth

Gall cam-drin domestig fod ar sawl ffurf, gan gynnwys trais corfforol, rheolaeth drwy orfodaeth, cam-drin emosiynol neu seicolegol, cam-drin rhywiol a cham-drin ariannol.

Mae hyn yn adlewyrchu'r diffiniad o gam-drin domestig yn **Neddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015**, sy'n nodi bod camdriniaeth o'r fath yn cwmpasu niwed corfforol, rhywiol, emosiynol, seicolegol ac ariannol, yn aml yn cynnwys patrymau o reolaeth hefyd.

Gall gwaith achos ynghylch cam-drin domestig gynnwys risgiau sylweddol i ddiogelwch. Lle bo modd, dylai Aelodau a'u staff gytuno â'r etholwr ar y ffordd fwyaf diogel o gyfathrebu (gan gynnwys pryd a sut i gyfathrebu, ac a yw'n ddiogel cysylltu â nhw yn y lle cyntaf), a chofnodi unrhyw gyfyngiadau cyswllt yn glir yn y nodiadau achos.

2. Atgyfeirio etholwyr a'u cefnogi

Gall y sefydliadau isod ddarparu cyngor a chymorth cyfrinachol. Gall argaeledd gwasanaethau a llwybrau atgyfeirio amrywio'n lleol; lle bo modd, dylai Aelodau a'u staff annog etholwyr i gysylltu â gwasanaethau arbenigol yn uniongyrchol (neu gynnig eu cefnogi i gysylltu mewn ffordd ddiogel).

Llinellau cymorth cenedlaethol

- **Byw Heb Ofn (Cymru):** Cymorth cyfrinachol 24/7 ar gyfer achosion o gam-drin domestig a thrais rhywiol. Ffôn: 0808 80 10 800. Testun: 07860 077333. Gwe-sgwrs ar gael. Gwefan: <https://llyw.cymru/byw-heb-ofn>

Llinellau cymorth arbenigol eraill ledled y DU:

- **Karma Nirvana:** llinell gymorth arbenigol ar gyfer achosion o briodas dan orfod a cham-drin ar sail anrhydedd. Ffôn: 0800 5999 247. Gwefan: <https://karmanirvana.org.uk>
- **Hourglass:** llinell gymorth i bobl hŷn sy'n cael eu cam-drin. Ffôn: 0808 808 8141. Gwefan: <https://www.wearehourglass.org>
- **Childline:** cefnogaeth i blant a phobl ifanc. Ffôn: 0800 1111. Gwefan: <https://www.childline.org.uk>

Gall etholwyr hefyd geisio cymorth trwy eu meddyg teulu a gwasanaethau GIG lleol.

- **GIG 111 Cymru:** cyngor iechyd mewn achosion nad ydynt yn rhai brys. Ffôn: 111. Gwefan: <https://111.wales.nhs.uk>

Gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol

Gall sefydliadau arbenigol ddarparu gwasanaethau fel asesiadau risg, cynllunio diogelwch, eiriolaeth a (lle bo angen) cymorth i gael lloches/gwasanaeth allgymorth. Mae rhai sefydliadau hefyd yn darparu cefnogaeth i grwpiau penodol.

- **Cymorth i Ferched Cymru:** sefydliad ymbarél cenedlaethol sy'n cefnogi gwasanaethau cam-drin domestig lleol, gan gynnwys

gwasanaethau lloches ac allgymorth.

Gwefan: <https://welshwomensaid.org.uk/cy/>

- **BAWSO:** cefnogaeth arbenigol i oroeswyr o gefndiroedd Du, ethnig leiafrifol neu fudol. Ffôn: 0800 7318147. Gwefan: <https://bawso.org.uk>
- **Y Llinell Gyngor i Ddynion:** cefnogaeth i ddioddefwyr gwrywaidd cam-drin domestig. Ffôn: 0808 801 0327. Gwefan: <https://mensadviceline.org.uk>
- **Galop:** cefnogaeth i ddioddefwyr a goroeswyr camdriniaeth a thrais o gymunedau LHDT+. Ffôn: 0800 999 5428. Gwefan: <https://galop.org.uk>

Tai, budd-daliadau a materion cyfreithiol

Mewn llawer o ardaloedd, ceir mynediad at wasanaethau lloches ac allgymorth trwy wasanaethau arbenigol lleol (er enghraifft, trwy wasanaethau i aelodau gan **Cymorth i Ferched Cymru**) a/neu dimau **tai awdurdod lleol**.

Gall etholwyr hefyd gysylltu â:

- **Shelter Cymru:** cyngor tai, gan gynnwys yn achos digartrefedd oherwydd cam-drin domestig. Ffôn: 08000 495 495. Gwefan: <https://sheltercymru.org.uk/cy/>
- **Cyngor ar Bopeth:** canllawiau ymarferol ar dai, budd-daliadau a materion cyfreithiol. Gwefan: <https://www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/>
- **Hawliau Menywod:** cyngor cyfreithiol am ddim (gan gynnwys cyngor ar gyfraith teulu a cham-drin domestig). Gwefan: rightsofwomen.org.uk

Mae **taflen ffeithiau** Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin yn cynnwys lincs i adnoddau ar gyfiawnder troseddol megis canllawiau ar gefnogaeth i ddioddefwyr.

Mae'r Coleg Plismona wedi llunio dogfen, **Authorised Professional Practice on Domestic Abuse**, sy'n egluro sut y dylai'r heddlu ymdrin ag achosion o gam-drin domestig sy'n cael eu hadrodd iddynt.

Plant a diogelu

Gall timau diogelu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol gynnig cefnogaeth mewn achosion lle gallai plant neu oedolion agored i niwed fod mewn perygl.

- **NSPCC:** cyngor os ydych yn poeni am lesiant plentyn. Llinell gymorth: 0808 800 5000. Gwefan: <https://www.nspcc.org.uk/about-us/our-impact/our-work-uk/wales/cymru/>

Ynglŷn â'r daflen ffeithiau hon: Gall manylion cyswllt ac argaeledd newid. Os gwelwch linc sydd wedi torri neu rif ffôn anghywir, gofynnwn i chi roi gwybod i dîm **Ymchwil y Senedd** fel y gellir diweddarau'r fersiwn ar-lein.